Lewis Valentine, 1893–1986
Gweinidog (B), emynydd a heddychwr

Dros Gymru'n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri,
y winllan wen a roed i'n gofal ni;
d'amddiffyn cryf a'i cadwo'n ffyddlon byth,
a boed i'r gwir a'r glân gael ynddi nyth;
er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo'i hun,
O crea hi yn Gymru ar dy lun.

Lewis Valentine

Ganwyd Lewis Edward Valentine ar 1 Mehefin 1893 yn Llanddulas, sir Ddinbych, rhwng Abergele a Hen Golwyn. Mab ydoedd i'r gweinidog gyda'r Bedyddwyr, Samuel Valentine a'i wraig Mary. Derbyniodd ei addysg gynnar mewn ysgol leol a dechreuodd bregethu ym 1912. Y flwyddyn ddilynol aeth i Goleg y Brifysgol, Bangor i ymbaratoi ar gyfer y weinidogaeth. Gwaetha'r modd cychwynnodd y Rhyfel Mawr (1914–18) ac ymaelododd â'r Officers' Training Corps, ac yna'r Corfflu Meddygol a sefydlwyd gan Dr John Williams, Brynsiencyn, i weini ar y clwyfedig. Yn ddiweddarach ysgrifennodd am rai o'i brofiadau yn y rhyfel yn *Seren Gomer* yn dwyn y teitl 'Dyddiadur Milwr'. Fe'i gyrrwyd i'r Somme yn Ffrainc ym Medi 1916, ac yn Hydref 1917 fe'i hanafwyd yn Passchendaele a'i wenwyno gan nwy.

Bu mewn ysbytai am flwyddyn yn agos at farw, a bu'n ddall am dri mis. Gadawodd y rhyfel ôl annileadwy arno weddill ei oes ac addawodd 'i ddal ar bob cyfle i wrthwynebu rhyfel'. Bu'r rhyfel yn fodd i gadarnhau ei Gymreictod ac fe ymroddodd i achos ei iaith a'i genedl. Wedi dychwelyd o'r drin aeth yn ôl i'r coleg ym Mangor ble y daeth yn ysgrifennydd cyntaf cymdeithas Gymraeg y Macwyaid ac yn llywydd Cyngor y Myfyrwyr.

Lewis Valentine oedd y cyntaf yng Nghymru i ennill gradd MA, yn yr Hebraeg. Ar ddiwedd ei gwrs derbyniodd alwad gan Eglwys y Tabernacl, Llandudno, ac fe'i hordeiniwyd ym 1921. Ei briod waith trwy gydol ei oes oedd pregethu'r Efengyl a chyflawni

ei ddyletswyddau fel gweinidog gyda'i eglwysi. Bu hefyd yn ddiwyd gyda sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru ym 1924 ac ef oedd y llywydd cyntaf. Priododd â Margaret E. Jones ym 1926 a chawsant ddwy ferch, sef Hedd a Gweirrul. Ymladdodd Plaid Genedlaethol Cymru ei hymgyrch etholiadol gyntaf ym 1929 gyda Lewis Valentine yn ymgeisydd yn etholaeth sir Gaernarfon. Dyma'r tro cyntaf i unrhyw un sefyll ar sail cenedlaetholdeb Cymreig.

Wrth i gymylau duon rhyfel mawr arall grynhoi, penderfynodd y llywodraeth godi ysgol fomio ym Mhenyberth, Llŷn. Lleiswyd gwrthwynebiad chwyrn yn erbyn hynny ond ni wrandawai'r awdurdodau, felly penderfynodd arweinwyr y Blaid Genedlaethol, sef Saunders Lewis, D.J. Williams a Lewis Valentine, losgi'r adeiladau oedd yn cael eu codi. Digwyddodd hynny ar 8 Medi 1836, ac o ganlyniad taniwyd cenedlaethau o Gymry i sefyll dros eu hunaniaeth, eu hiaith a'u hawliau. Dedfrydwyd y tri i naw mis o garchar yn Wormood Scrubs, ac ar ôl iddo gael ei ryddhau bu Lewis Valentine yn byw bywyd tipyn tawelach o'i gynharu â bwrlwm y blynyddoedd cynnar, gan symud i fod yn weinidog ar eglwys y Bedyddwyr Penuel, Rhosllannerchrugog ym 1947. Penodwyd ef yn olygydd *Seren Gomer* ym 1951, a chyflawnodd y gwaith tan 1975.

Trwy gyfrwng y cylchgrawn hwnnw mynegodd ei farn ar bynciau mawr Cristnogaeth, y berthynas rhwng y ffydd Gristnogol, yr iaith a'r genedl, addysg a gwleidyddiaeth. Ymddeolodd ym 1970 gan symud i Landdulas. Bu farw ar 5 Mawrth 1986 yng nghartref gofal Como yn Llandrillo ger Bae Colwyn.